

Ardal Fenter Ynys Môn

Cynllun Strategol 2018 – 2021



Gorffennaf 2019

Cynnwys

Cynnwys	Tudalen
1. CEFNDIR	3
2. Y WELEDIGAETH A'R PRIF FLAENORIAETHAU	4
3. Y CYNNYDD A WNAED A'R HYN A GYFLAWNWYD ERS EI SEFYDLU	5
4. Y BLAENORIAETHAU A'R TRYWYDD AR GYFER Y DYFODOL	9
5. LLYWODRAETHU	11
6. CYHOEDDIADAU BLAENOROL YR ARDAL FENTER	12

1. CEFNDIR

Ardaloedd Menter Cymru

Ceir wyth **Ardal Fenter** yng Nghymru. Ardaloedd daearyddol dynodedig yw'r Ardaloedd Menter, ac maent yn cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n ehangu drwy ddarparu seilwaith a chymorth busnes o'r radd flaenaf. Mae pob Ardal Fenter yn canolbwyntio ar o leiaf un sector busnes allweddol.

Mae Ardal Fenter Ynys Môn yn canolbwyntio'n bennaf ar y sector ynni a'r amgylchedd.



I gael mwy o wybodaeth am yr Ardaloedd Menter, ewch i:

<https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy>

Newidiodd cyd-destun strategol Ynys Môn yn ddirfawr yn 2019. Roedd penderfyniad Hitachi i atal eu cynlluniau yn Wylfa Newydd a phenderfyniad Rehau i gau eu ffatri yn Amlwch yn ergydion cas i ragolygon economaidd tymor byr a chymunedau Ynys Môn. Roedd hyn yn ychwanegol at effeithiau mawr disgwylidig datgomisiynu pwerdy Wylfa.

Mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wedi ymateb i ganlyniadau cyntaf y cyhoeddiadau hyn gan gydnabod bod angen taclo'r heriau economaidd sy'n wynebu'r ardal a sicrhau ffyniant a lles tymor hir Ynys Môn.

Amcan Strategaeth Ardal Fenter Ynys Môn yw darparu cynllun clir fydd yn helpu i ddod â gwelliannau i'r ardal a sicrhau manteision fydd yn aros.

2. Y WELEDIGAETH A'R PRIF FLAENORIAETHAU

Y weledigaeth ar gyfer Ardal Fenter Ynys Môn yw creu canolfan ragoriaeth sy'n enwog drwy'r byd am gynhyrchu, arddangos a gwasanaethu ynni carbon isel. Mae'r Ardal yn canolbwyntio ar wyth safle strategol sy'n ategu Rhaglen Ynys Ynni Môn:

- Cynhyrchu – buddsoddi mewn cynhyrchu ynni carbon isel newydd i helpu i sicrhau dyfodol ynni sefydlog i Gymru.
- Arddangos – darparu cyfleusterau o safon byd i sefydlu Ynys Môn fel lleoliad blaenllaw ar gyfer arloesi ym maes ynni carbon isel a'i arddangos.
- Gwasanaethu – pennu cyfleoedd mewn cadwyni cyflenwi a manteisio'n llwyr arnynt.

Mae'r Ardal Fenter yn adeiladu ar y buddsoddiad sydd yn yr arfaeth yn y prosiectau adeiladu niwclear newydd ar yr ynys gan gynnwys y cyfleuster Profi Thermo-hydrolig, yr Athrofa Niwclear, ochr yn ochr â chyfleoedd ym meysydd ynni adnewyddadwy'r môr, ynni solar a microgynhyrchu. Mae'n ategu gwaith Cyngor Sir Ynys Môn o ran rheoli ac adfywio cyrchfannau ac mae'n ceisio sicrhau manteision ehangach i Ynys Môn a'r Gogledd-orllewin yn gyffredinol.

Mae hyn yn cynnwys:

- Tynnu tanwydd o adweithyddion presennol Wylfa a'u datgomisiynu;
- Ynni adnewyddadwy'r môr, gan gynnwys Minesto a Morlais;
- Datblygiadau arfaethedig – gwelliannau i seilwaith Porth a Phorthladd Caergybi
- Parc Gwyddoniaeth Menai (M-Sparc) yn y Gaerwen, gan gynnwys denu'r Cyfleuster Profi Thermo-hydrolig a'r Athrofa Niwclear arfaethedig; mae'r olaf yn cael ei ystyried fel rhan o Fargen Twf y Gogledd;
- Datblygiad arfaethedig Hitachi ABWR ar safle Wylfa Newydd trwy fenter Pŵer Niwclear Horizon (wedi'i atal ar hyn o bryd)
- Eco-barc a Hwb Logisteg Orthios;
- Datblygiad Land and Lakes/Bluestone, Caergybi;
- Denu rhagor o fuddsoddi yn safle'r uwchgynllun yng Ngholeg Menai, Llangefni i ategu'r datblygiadau carbon isel;
- Annog cwmnïau'r sector gwasanaethau lleol yn yr Ardal Fenter i wneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigir gan y prif brosiectau allweddol.

Y PRIF FLAENORIAETHAU

- Cefnogi busnesau
- Cefnogi prosiectau
- Cefnogi seilwaith

3. Y CYNNYDD A WNAED A'R HYN A GYFLAWNWYD ERS EI SEFYDLU

Ymhlith y cynnydd a wnaed yn yr Ardal Fenter i gefnogi amcanion y Bwrdd mae'r hyn a ganlyn:

- Drwy i'r Bwrdd roi blaenoriaeth i dechnoleg forol a niwclear, mae wedi helpu i ddadlau'r achos economaidd sydd wedi denu buddsoddiad newydd sylweddol. Minesto, datblygwr ynni'r môr o Sweden, sy'n ymgymryd â'r prosiect morol cyntaf ac mae wrthi'n datblygu cyfleuster gweithgynhyrchu ym Mhorthladd Caergybi ar ôl iddo sicrhau €5.1m oddi wrth raglen Horizon 2020 yr UE i ddatblygu safle ynni'r llanw ar raddfa fasnachol oddi ar arfordir Caergybi. Mae Minesto wedi cwblhau'r ail gam i osod ei brosiect DG500 ar y môr, a hynny drwy osod y tennyn, bwi'r system micro-grid a'r llinyn cyswllt. Mae'r holl systemau a chydannau ategol sydd eu hangen i ddarparu'r pŵer a gynhyrchir gan system gyntaf Minesto sy'n defnyddio'r dechnoleg Deep Green unigryw ar raddfa fawr bellach yn eu lle.
- Ym mis Medi 2017, cyhoeddwyd y bydd £4.5m o arian yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru yn helpu i hybu sector ynni'r môr a'r llanw yn y Gogledd. Bydd y cyllid hwn yn cynorthwyo Menter Môn, drwy ei chynllun Morlais gwerth £5.6m, i gyflymu'r camau i ddatblygu ac i fasnacheiddio technolegau ffrwd lanw yn Ardal Arddangos Morlais. Mae wyth o'r mewnfuddsoddwyr presennol wedi ymrwymo i sicrhau gofod/llain yn yr ardal arddangos.
- Dyfarnwyd arian cyfatebol i Goleg Menai i baratoi uwchgynllun ar gyfer ei gampws yn Llangefni. Bu i'r Bwrdd gynorthwyo'r Coleg i baratoi uwchgynllun ar gyfer y safle ac, yn ddiweddar, cyhoeddwyd £13.5m i sefydlu Canolfan Ynni ar gampws Llangefni, gyda Llywodraeth Cymru'n darparu £6.75m. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Coleg i ddatblygu'r prentisiaethau a'r sgiliau sydd eu hangen i feithrin cronfa talent leol. Bydd y Ganolfan yn sicrhau bod modd i'r Coleg gefnogi nifer o leoedd ychwanegol ar gyfer myfyrwyr peirianeg sy'n astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a thechnegol. Lleolir y Ganolfan newydd ar yr un campws â'r Ganolfan Ynni bresennol a'r Ganolfan Adeiladu. Gyda'i gilydd, bydd y cyfleusterau hyn yn helpu'r myfyrwyr i feithrin eu sgiliau peirianeg ac adeiladu i gefnogi datblygiad Wylfa Newydd.
- Ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn, Grŵp Llandrillo Menai a'r Awdurdod Datgomiisyntu Niwclear, llwyddwyd i gael gafael ar arian ar gyfer y prosiect gwerth £12m i adeiladu Ffordd Gyswllt newydd Llangefni; mae Llywodraeth Cymru'n cyfrannu dros £10.6m at y cynllun. Mae'r Ffordd Gyswllt sy'n cael ei darparu mewn pedair rhan yn elfen allweddol o Uwchgynllun Grŵp Llandrillo Menai i ddatblygu Campws Llangefni i fod yn ganolfan hyfforddi sy'n cael ei chydabod yn rhyngwladol ym maes hyfforddiant ynni a pheirianeg. Bydd y Ffordd Gyswllt hefyd yn bwysig i liniaru effaith traffig ar ganol tref Llangefni ac mae wedi sicrhau bod modd ehangu campws Coleg Mena Grŵp Llandrillo Menai, yn Llangefni yn sylweddol ar safle 40 erw.

- Mae gan Grŵp Llandrillo Menai gynlluniau i ddatblygu Canolfan Sgiliau Seilwaith ar gampws Coleg Menai yn Llangefni, a hynny fel canolfan hyfforddi sgiliau seilwaith o safon byd. Lleolir y Ganolfan ym mhen gogleddol Campws Llangefni. Y nod yw creu canolfan hyfforddi ragorol yn y Gogledd a fydd yn darparu llawer o'r sgiliau sydd eu hangen wrth adeiladu prosiectau seilwaith mawr arfaethedig y rhanbarth. Mae'r prosiect hwn hefyd wedi dangos effaith uniongyrchol Bwrdd Ardal Fenter Ynys Môn. Yn sgil ymyrraeth uniongyrchol a chymeradwyaeth Bwrdd yr Ardal Fenter, llwyddwyd i gael gafael ar arian i roi Camau 1 a 2 y prosiect hwn ar waith.
- Gwnaed cynnydd o ran unedau diwydiannol llai yr Ardal Fenter, gyda chyhoeddiad ym mis Gorffennaf 2017 y bydd £4m o arian yr UE yn cael ei ddefnyddio i ddarparu dros 1,300m² o ofod swyddfa, diwydiant ysgafn a storio ar gyfer busnesau ar hen safle Hyfforddiant Môn a thros 750m² o ofod swyddfa yng Nghanolfan Busnes Môn ym Mharc Busnes Bryn Cefni. Daeth y gwaith i ben yn Hydref 2018 ac mae'r 5 uned wedi'u rhoi ar osod yn llwyddiannus.
- Cyhoeddwyd bron i £4m i greu unedau busnes newydd i gefnogi sector ynni carbon isel Ynys Môn, sector sy'n tyfu. Bydd y datblygiad newydd yng Nghaergybi'n darparu oddeutu 2,787m² o ofod swyddfa, diwydiant ysgafn a storio ar gyfer busnesau ar hen safle hofrenfa Ystad Ddiwydiannol Penrhos, gyda Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn cyfrannu £2.3m a Llywodraeth Cymru'n cyfrannu £1.6m.
- Mae contractwyr lleol, gan gynnwys Jones Brothers (Rhuthun) a Watkin Jones, wedi adeiladu Arosfan Lorïau/Hwb Logisteg Conygar ym Mharc Cybi, Caergybi.
- Cafodd y datblygwr, Conygar Investment Company, ganiatâd cynllunio y llynedd i godi gwesty Premier Inn ag 80 ystafell wely wrth ymyl yr A55 ar Ynys Môn, gyferbyn ag arosfan lorïau Road King, ym Mharc Cybi. Daeth y gwaith i ben ddiwedd 2018.
- Gyda chymorth Cyllid Cymru, mae Halen Môn wedi mynd ati i ddatblygu ffatri a chanolfan ymwelwyr newydd gwerth £1m a mwy.
- Mae'r erfyn ar-lein, "Taro Twristiaeth", i ddysgu disgyblion, rheini ac athrawon am gyfleoedd yn y sectorau lletygarwch a gwasanaethu, wrthi'n cael ei ddatblygu; mae'n ateb y gofyn i annog disgyblion i ystyried twristiaeth fel gyrfa.
- Cafodd JLL ei gomisiynu gan y Bwrdd i ymchwilio i faint o eiddo diwydiannol sydd ar gael yn yr Ardal Fenter, a'r galw amdano. Roedd digwyddiad wedi hynny ym Manceinion ym mis Mai 2018, i ddenu datblygwyr i ddechrau edrych ar gyfleoedd hap-adeiladu yn yr Ardal, yn llwyddiant. Rydym dal wrthi'n delio â'r ymholiadau.

- Mae'r Cyfleuster Profi Thermo-hydrolig a allai gael ei lleoli ar safle Parc Gwyddoniaeth Menai yn destun astudiaeth ddichonoldeb ar draws y DU i bennu'r lleoliad gorau ar ei gyfer. Os bydd yn llwyddiannus, bydd yn dod â swyddi niwclear cynaliadwy â chyflogau uchel ym maes ymchwil a datblygu i'r Ardal Fenter ac yn dechrau datblygu clwstwr o arbenigwyr niwclear a fydd yn denu mewnfuddsoddiad. Bwriedir cynnal swyddi hefyd yn y sector morol sy'n dod i'r amlwg ar yr Ynys, ac mae Porthladd Caergybi'n datblygu i fod yn safle Gweithredu a Chynnal a Chadw (O&M) ar gyfer y gweithgaredd hwn.
- Chwe mis ar ôl iddo agor ei ddrysau, mae adeilad blaengar Parc Gwyddoniaeth Menai (M-Sparc), gwerth £20m yn fwy na hanner llawn. Bwriedir iddo ddenu busnesau o'r sector ynni carbon isel gyda gwyddoniaeth ac ymchwil, gan gynnwys entrepreneuriaeth, yn ganolog iddo. Mae 17 cwmni wedi'u lleoli ar y safle ac mae wedi cyrraedd capasiti o 70%.
- Mae Prifysgol Bangor yn datblygu gallu sy'n arwain y byd ym maes peirianeg a gwyddoniaeth niwclear, drwy gysylltiadau â'r Parc Gwyddoniaeth. Bydd yn galluogi cyfleoedd a phartneriaethau rhyngwladol drwy gyfuno cymysgedd cyfoethog o dalentau presennol a thalentau newydd i gefnogi economi'r ardal a'r rhanbarth. Gyda phrosiectau datgomisiynu a gorsaf ynni niwclear newydd ar garreg y drws, a nifer gynyddol o fusnesau o'r gadwyn gyflenwi niwclear yn dechrau gweithio yn yr ardal, mae'r Brifysgol yn canolbwyntio ar y technolegau cynhyrchu ynni niwclear presennol a'r technolegau datblygol, gan gynnwys adweithyddion dŵr cywasgedig (PWR), adweithyddion dŵr berw (uwch) ((A)BWR) ac adweithyddion modiwl bach (SMR).
- Mae Prifysgol Bangor a Choleg Imperial Llundain eisoes wedi sefydlu Canolfan a Rhwydwaith Adweithyddion Dŵr Berw (BWR) ar y cyd â Hitachi-GE fydd yn darparu arbenigedd a chymorth technegol. Mae'r Rhwydwaith yn dod ag ymchwilwyr y DU ac ymchwilwyr niwclear Hitachi at ei gilydd i helpu i ddatblygu cenedlaethau'r dyfodol o dechnoleg adweithyddion dŵr berw.
- Mae arbenigedd niwclear a gallu academaidd ym Mhrifysgol Bangor yn ehangu'n gyflym yn sgil penodi 'sêr' ymchwil rhyngwladol, a'u timau ymchwil cefnogol, a ariennir gan raglen Sêr Cymru Llywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.
- Mae nifer fawr o astudiaethau technegol a manwl wedi'u cynnal ym Mhorthladd Caergybi ar y cyd â Stena a'r Cyngor Sir. Eu pwrpas yw darparu gwybodaeth ar gyfer ehangu a gwella'r porthladd yn y dyfodol fel rhan o brosiect Porth Caergybi o dan Fargen Twf y Gogledd. Bydd hyn yn diogelu dyfodol y porthladd ac yn gwneud yn siŵr ei fod yn ddigon cystadleuol i fod yn rhan o'r prosiectau ynni ac arallgyfeirio.

Perfformiad yr Ardaloedd Menter

Cyhoeddir diweddariad am y cynnydd a wnaed o ran prif brosiectau'r Ardaloedd Menter bob blwyddyn (gweler Adran 6 – Cyhoeddiadau blaenorol yr Ardal Fenter i gael dolenni at y dogfennau perthnasol).

- O'r dyddiad y cafodd ei sefydlu hyd at fis Mawrth 2018, cafodd 516 o swyddi eu creu, naill ai drwy gymorth ariannol uniongyrchol neu drwy gymorth ehangach gan Lywodraeth Cymru. Cafodd 88 o swyddi eraill eu cynorthwyo a 448 o swyddi eu diogelu.
- O'r dyddiad y cafodd ei sefydlu hyd at fis Mawrth 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £12.3m ac mae'r sector preifat wedi buddsoddi dros £3.2m.
- O'r dyddiad y cafodd ei sefydlu hyd at fis Mawrth 2018, mae 63 o fusnesau yn yr Ardal Fenter wedi cael cymorth a chefnogaeth ariannol drwy raglenni cymorth busnes Llywodraeth Cymru neu drwy ymyriadau uniongyrchol.

Y Cynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter

Lansiwyd y Cynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter ym mis Hydref 2012 fel cymorth ariannol i leihau'r ardrethi busnes y mae'n rhaid i fusnesau bach a chanolig yn Ardaloedd Menter Cymru eu talu. Ers ei lansio, mae 29 o fusnesau yn Ardal Fenter Ynys Môn wedi elwa ar Gynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter Cymru, gyda thros £568K wedi'i ddarparu tuag at gostau eu hardrethi busnes.

4. Y BLAENORIAETHAU A'R TRYWYDD AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r Bwrdd wedi pennu'r prif flaenoriaethau ac amcanion a ganlyn er mwyn datblygu'r Ardal Fenter ymhellach yn y dyfodol:

Cefnogi busnesau

- Parhau i ddarparu cymorth ychwanegol i fusnesau yn Ardal Fenter Ynys Môn.
- “**Taro Twristiaeth**” a “**Pantri Môn**” – parhau i gefnogi'r cyfleoedd a'r gofynion sgiliau yn y sector gwasanaethau lleol.

Cefnogi prosiectau

- **Parc Gwyddoniaeth Menai (M-Sparc)** – Cefnogi'r camau i leoli'r cyfleuster profi thermo-hydrolig arfaethedig gwerth £50m yn y Gogledd fel rhan o fargen y sector niwclear, gan sicrhau mai M-Sparc yw'r gyrchfan o ddewis yn y Gogledd.
- **Rhaglenni Llywodraeth Cymru/y DU ar gyfer Arloesi ac Ymchwil a Datblygu yn y Sector Cyhoeddus** – gan adeiladu ar botensial y cyfleuster profi thermo-hydrolig yn M-Sparc, gwneud y gorau o bob cyfle sy'n codi o'r strategaeth ddiwydiannol a'r bargeinion sector i ddenu datblygiadau technegol y sector cyhoeddus i Ardal Fenter Ynys Môn. Bydd hyn yn cynnwys technoleg rheolaeth ac offeryniaeth, gwaith ardystio cyfarpar, ac astudiaeth ddichonoldeb canolfan hyfforddi bosibl ar gyfer “profion straen” safleoedd niwclear sifil yn y seiberofod.
- Cefnogaeth i'r Athrofa Niwclear arfaethedig trwy fargen Twf y Gogledd.
- **Prosiectau sy'n gysylltiedig â'r môr** – parhau i gefnogi arloesedd drwy'r sector morol sy'n dod i'r amlwg, a rhoi cymorth lle bo'n briodol gan gynnwys Morlais a Minesto.

Cefnogi seilwaith

- **Safleoedd diwydiannol newydd** – sicrhau bod cyflenwad digonol o eiddo diwydiannol priodol ar gael i ateb yr ystod eang o ofynion sydd gan fusnesau newydd a busnesau presennol sy'n ymwneud â gweithgareddau carbon isel, morol a niwclear.
- **Prosiect cyllid yr UE** – mae'r gwaith o adeiladu ffordd gyswllt Llangefni yn mynd rhagddo'n dda; mae angen gwneud mwy o waith nawr i wneud y gorau o gyfleoedd ariannu'r UE i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer cais posibl i WEFO. Bwriad y cais fydd creu stoc ddiwydiannol newydd ac uwchraddio'r stoc bresennol yn ardal Llangefni.

- **Porth Caergybi** – Lluniwyd uwchgynllun ar gyfer Porth Caergybi, ac fe geir cyfleoedd buddsoddi sylweddol yn y sectorau niwclear, mordeithio, cludo nwyddau a morol ac yn sgil Brexit. Bydd Bwrdd Ardal Fenter Ynys Môn yn parhau i gefnogi'r prosiect trawsnewidiol hwn ar un o safleoedd Ardal Fenter Ynys Môn; mae'r prosiect hwn hefyd yn rhan o Fargen Twf y Gogledd.
- **Marchnata a hyrwyddo** – pwysu a mesur tri gweithgaredd hyrwyddo pwysig i wella ymgyrchoedd hyrwyddo Llywodraeth Cymru ac i ychwanegu gwerth atynt;
 - I. Pwysu a mesur gwerth y farchnad rheolaeth ac offeryniaeth ar gyfer y sector niwclear fel clwstwr i'w ddatblygu o amgylch Parc Gwyddoniaeth Menai;
 - II. Helpu i ddatblygu fideo i hyrwyddo M-Sparc fel rhanbarth ynni carbon isel
 - III. Paratoi ymgyrch i hyrwyddo Ardal Fenter Ynys Môn drwy'r cyfryngau cymdeithasol fel lle i fyw ac i weithio ynddo;
 - IV. Cynnal cynhadledd i hyrwyddo Ardal Fenter Ynys Môn ymhlith datblygwyr i adeiladu ar lwyddiant y digwyddiad a gynhaliwyd ym Manceinion yn 2018.

5. LLYWODRAETHU

Byrddau'r Ardaloedd Menter

Cafodd pob Ardal Fenter ei harwain ar y dechrau gan Fwrdd Cynghori annibynnol y sector preifat sy'n cynghori Llywodraeth Cymru ar weithredu a chyflawni cynlluniau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer yr Ardaloedd.

Trwy drefniadau ddaeth i rym ar 31 Gorffennaf 2018, mae llywodraethiant rhai o'r Ardaloedd wedi'i symleiddio. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth wedi gofyn i Fwrdd gael ei benodi i gadw golwg ar y datblygiadau yn Ardal Fenter Môn am gyfnod pellach o dair mlynedd tan 31 Gorffennaf 2021.

Caiff manylion aelodaeth bresennol Bwrdd Cynghori Ardal Fenter Môn eu cyhoeddi ar

<https://llyw.cymru/bwrdd-cynghori-ardal-fenter-ynys-mon/aelodau>

6. CYHOEDDIADAU BLAENOROL YR ARDAL FENTER

Cynlluniau Strategol

Ardal Fenter Ynys Môn – Cynllun Strategol 2015 (gan gynnwys diweddariadau a wnaed yn 2016 a 2017)

<https://gov.wales/docs/det/publications/170719-strategic-plan-anglesey-cy.pdf>

Ardaloedd Menter – Diweddariad ar gynnydd Tachwedd 2014

<http://gov.wales/docs/det/publications/141203-ezw-progress-update-cy.pdf>

Ardaloedd Menter – Diweddariad ar gynnydd Hydref 2013

<https://gov.wales/docs/det/publications/141001enterprisezonesummarycy.pdf>

Perfformiad yr Ardaloedd Menter

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2017/18

<https://gov.wales/docs/det/publications/dangosyddion-perfformiad-allweddol-ardaloedd-menter-adroddiad-blynyddol-ebrill-2017-i-mawrth-2018.pdf>

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2016/17

<https://gov.wales/docs/det/publications/170719-kpi-16-17-cy.pdf>

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2015/16

<https://gov.wales/docs/det/publications/160802-kpi-15-16-cy.pdf>

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2014/15

<https://gov.wales/docs/det/publications/150615-ezw-kpi-14-15-cy.pdf>

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2012/13 a 2013/14

<https://gov.wales/docs/det/publications/140522ezwkpi1213-1314icy.pdf>